



Gofynwch am:

Ffôn:

E-Bost:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

25 Medi 2020

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Ysgrifennais atoch bythefnos yn ôl gydag optimistiaeth mawr fod ein plant a'n pobl ifanc yn Abertawe yn mwynhau dychwelyd i addysg yn llwyddiannus. Heddiw, ni fu ein ffocws ar ymateb i anghenion lles a dysgu disgyblion erioed yn fwy amlwg. Mae ein hysgolion i gyd yn gweithio'n eithriadol o galed i leihau risg a pharhau i ddysgu.

Mae'r newyddion yr wythnos hon bod cyfyngiadau cyhoeddus yng Nghymru'n mynd yn dynnach wedi cryfhau ein penderfyniad i barhau i ddysgu yn Abertawe. Ni fydd y cyhoeddiad heddiw o gyfnod cloi lleol yn newid y penderfyniad i gadw ein hysgolion ar agor er budd ein holl blant a phobl ifanc.

Gwyddom fod effaith Covid-19 ar y genhedlaeth iau yn llawer llai na'r boblogaeth hŷn. Mae tarfu pellach ar addysg yn peri risg uchel i les a byddem yn ceisio osgoi hyn lle bynnag y bo modd. Yn ddealladwy, efallai y bydd cyfnodau o darfu byr o'n blaenau.

Ar hyn o bryd, mae angen imi ddiolch i chi, fel rhieni, am y cymorth yr ydych wedi bod yn ei roi i ysgolion yn ystod dechrau'r tymor. Mae'n fwyfwy annhebygol y bydd ysgolion yn dychwelyd i'r ffordd yr oeddent yn gweithredu am gryn amser. Rydym yn gweld gostyngiadau rhannol mewn gweithrediadau rhai ysgolion lle gofynnir i grwpiau blwyddyn gyfan aros gartref am 14 diwrnod.

Mae staff ein hysgolion wedi bod yn wych yn y ffordd y maent wedi parhau i ddysgu pan ofynnir i grwpiau blwyddyn hunanynysu. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn parhau. Mae'n amlwg na fydd dysgu ac addysgu yn cael ei gloi i lawr. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi ysgolion i newid yn ôl i ddysgu o bell yn gyflym er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgu.

Lle bu achos o goronafeirws mewn ysgol yna mae penaethiaid yn gweithio gyda'r cyngor, lechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu GIG Cymru i sicrhau bod yr holl fesurau priodol ar waith i amddiffyn disgyblion, staff a'r gymuned ehangach.

Caiff y mesurau hyn eu rhannu gyda rhieni cyn gynted â phosibl ac mae angen cefnogaeth pawb ar benaethiaid i gydnabod eu bod yn mynd y filltir ychwanegol bob dydd.

Gwyddom fod ein hysgolion yn atal trosglwyddo Covid-19 drwy asesiadau risg cadarn a bod achosion cadarnhaol diweddar wedi dod i'r ysgol o'r tu allan. Gallwch fod yn hyderus bod eich ysgol yn gwneud popeth o'i gallu i atal trosglwyddo yn yr ysgol ac i barhau i ddysgu. Rydym yn sylweddoli y bydd ansicrwydd wrth i nifer yr achosion cadarnhaol yn ein hardal gynyddu ond mae gan ysgolion ystod o fesurau rheoli ar waith i gadw adeiladau a phobl yn ddiogel.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod yr holl staff, disgyblion a rhieni yn deall sut mae amgylcheddau, gweithdrefnau a gweithrediadau yn gweithio ym mhob ysgol erbyn hyn. Mae llawer o benaethiaid yn ysgwyddo baich cyfrifoldeb ond mater i bob un ohonom yw chwarae ein rhan a gwybod yn union sut i ymddwyn yn ystod y cyfnod heriol hwn. Fel rhieni, mae gennych ran fawr i'w chwarae o ran cefnogi addysg yn eich cymuned a gwn y bydd ein hymdrechion ar y cyd yn cadw diogelwch disgyblion a staff yn ein hysgolion fel y brif flaenoriaeth.

Fe'ch gwahoddaf unwaith eto i ymgysylltu â'r broses Prawf, Orlhain a Diogelu a gofyn am brawf os oes gan eich plentyn un o'r symptomau canlynol

- tymheredd uchel – mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu eich cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch newydd, parhaus – mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu 3 pennod besychu neu new fwy mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gall fod yn waeth nag arfer)
- methu arogl neu flasau neu golli eich synnwyr o arogl neu flas: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi nad ydych yn gallu arogl na blasu unrhyw beth, neu fod pethau'n arogl neu'n blasu'n wahanol i'r arfer

Os ydych yn ansicr, dylech gysylltu â Galw Iechyd Cymru 111 neu eich meddyg teulu.

Mae ein hymdrech ar y cyd i gefnogi plant a phobl ifanc Abertawe i barhau i ddysgu yn yr ysgol yn hanfodol bwysig.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro